



Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc /
Director of Education, Skills and Young People

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

SWYDDOGOL SENSITIF / OFFICIAL
SENSITIVE

Ffôn / Tel: 01248 752901

Gofynnwch am / Ask for:
Ffôn / Tel: 01248 752 342
E-bost / E-mail:

Ein Cyf / Our ref:
Eich Cyf / Your Ref:

19 Ebrill 2021

Annwyl Rieni / Rhanddeiliaid,

Ar Ddydd Llun y 15fed o Fawrth 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig i :

Gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.

Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar y 18fed o Ionawr 2021, a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar y 15fed o Chwefror 2021. Derbyniwyd 46 gwrthwynebiad i'r cynnig.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhoddodd y Pwyllgor Gwaith ystyriaeth i'r gwrthwynebiadau a chymeradwywyd y cynnig gwreiddiol. Wrth benderfynu roedd y Cyngor yn fodlon bydd y cynnig yn sicrhau'r canlynol:

- Rhaglen addysg hirdymor i ddisgyblion ar y safle yn yr ardal wledig a threfol hon.
- Cyfle i ddatblygu ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gynnwys fwy o gysondeb ym maint y dosbarthiadau a'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau.
- Hwyluso datblygiad dulliau da o arwain a rheoli'r ysgol, dan arweiniad un Pennaeth, gydag un Corff Llywodraethu, ac wedi'i ariannu fel un sefydliad unigol.
- Caniatáu hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflenwi'r cwricwlwm.
- Yn darparu addysg briodol i ddisgyblion o bob gallu. Bydd y staff yn gallu cyfrannu at bolisiau ac arferion ym mhob maes ar draws pob ystod oedran, ac yn enwedig annog disgyblion mwy abl a dawnus, a darparu ar gyfer y rhai fyddai'n elwa o gymorth ychwanegol.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

Ansawdd a Safonau Addysg

Bydd yr Awdurdod yn cymryd yr holl gamau ymarferol i sicrhau cyn lleied o amharu â phosib ar ddisgyblion pob un o'r ysgolion, trwy weithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu perthnasol. Darperir cymorth ychwanegol, os oes angen, i gynorthwyo'r disgyblion gyda'r pontio. Bydd yr ysgol estynedig yn helpu i wella cyrhaeddiad/canlyniadau pob disgybl, beth bynnag eu cefndir, drwy roi amser arwain i Bennaeth na fydd yn dysgu.

Yr angen am lefydd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Bydd y cynnig hwn yn darparu adeilad sector cynradd newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, (Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2), fydd yn cwrdd â Meini Prawf Bwletin Adeiladu 99 a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Mae'r Cyngor wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd rhai disgyblion yn teithio'n bellach i'r ysgol. Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer y disgyblion yn unol â

Pholisi Cludiant y Cyngor. Bydd Ysgol y Graig estynedig yn gallu derbyn y disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Talwrn. Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn parhau'n ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg.

Adnoddau addysg

Ariennir y cynnig hwn gyda arian y Cyngor ei hun, benthycia darbodus, grant gan Lywodraeth Cymru o 65% a £150,000 o gyfalaf a dderbynnir trwy werthu asedau.

Dadansoddiad o'r gyllideb	Cost
Cyngor Sir Ynys Mon 35%	£1,923,163 (ar ôl cynnwys £150,000 o dderbyniadau cyfalaf)
Llywodraeth Cymru 65%	£3,850,160
Amcan cyfanswm cost y prosiect	£5,923,323

Bydd y cynnig yn arwain at ad-drefnu'r gwariant fesul disgybl, fydd yn caniatáu defnydd mwy effeithlon o'r gwariant hwn ar draws yr ysgolion.

Ffactorau penodol mewn perthynas ag ystyried cau ysgolion

Ystyriwyd opsiynau amrywiol cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu ar yr opsiwn hwn. Bydd gwneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn ar safle estynedig Ysgol y Graig yn fwy ymarferol yn ariannol ac yn sicrhau bod digon o lefydd i blant yr ardal o ystyried y datblygiadau tai arfaethedig yn lleol.

Bydd disgwyl i Ysgol y Graig barhau i gynnal clwb brecwast, clwb ar ôl ysgol a gweithgareddau i'r gymuned gan ddefnyddio'r ystafell gymunedol yn yr ysgol.

Gweithredu

Bydd Ysgol y Graig estynedig yn Llangefni yn agor o Fedi 2023 ar y cynharaf. Unwaith bydd hi'n agor, bydd Ysgol Talwrn yn cau.

Atgyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod i Weinidogion Cymru

O dan Adran 54 o Ddeddf 2013 pan fydd cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol, gall y cyrff canlynol, o fewn 28 diwrnod, atgyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru ei ystyried;

- Awdurdod Lleol arall a effeithir gan y cynigion
- Y corff crefyddol priodol
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig
- Sefydliad addysg bellach a effeithir gan y cynnig

Bydd angen i'r cyrff sy'n gwneud yr atgyfeiriad osod eu rhesymau dros gredu nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud y penderfyniad cywir.

Yn gywir,

Rhys Howard Hughes

Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc